# CORIANDER

## 1 HAU DY HADAU

O fis Ebrill ymlaen, gelli di hau'r hadau'n syth i wely llysiau, 1cm o ddyfnder mewn rhigolau, gyda 30cm rhwng pob rhes. Rho ychydig bach o bridd dros y rhigolau.


Neu gelli di hau'r hadau rhwng y planhigion sy'n tyfu'n barod neu o gwmpas ymylon gwely llysiau.

## 2 TENEUO

Pan fydd y planhigion bach yn 5-10cm o daldra, dechreua dynnu'r rhai llai a gwannach. Gadawa 10cm rhwng pob planhigyn.

## 3 CYNAEAFU

Dylet ti hel y dail pan maen nhw'n ifanc, er mwyn annog mwy i dyfu. Torra nhw gyda siswrn neu eu tynnu gyda dy fys a bawd. Gelli di hel y dail drwy'r haf a'r hydref.




## COFIA

Os bydd blodau'n ymddangos, tynna nhw ar unwaith i annog dail i dyfu.

Defnyddia'r dail ffres mewn cawl, prydau tro-ffrio neu i wneud past cyrri Thai gwyrdd cartref.



Newydd egino



Barod i'w hel

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES